
Hygyrchedd Canllawiau Rhaglenni Electronig

Adroddiad blynyddol ar welliannau ar gyfer pobl sydd â
namau gweledol

1. Trosolwg

- 1.1 Mae pobl sydd â namau gweledol yn gwylio cymaint o deledu â phobl eraill ond maent yn wynebu anawsterau penodol wrth ddefnyddio canllawiau rhaglenni ar setiau teledu (sy'n cael eu galw'n ganllawiau rhaglen electronig neu 'EPG') i ddewis beth maent yn ei wyllo. O ganlyniad, gall eu dewisiadau gwylio gael eu cyfyngu'n ddiangen, a gallent golli allan ar ddod o hyd i raglenni a'u gwylio.
- 1.2 [Mae'r cod EPG](#) (a luniwyd o dan isadran [310\(3\) Deddf Cyfathrebiadau 2003](#)) yn disgrifio'r arferion sydd i'w dilyn gan ddarparwyr EPG er mwyn i EPG gael ei ddefnyddio gan bobl sydd ag anableddau.
- 1.3 Ym mis Mehefin 2018 gan ddilyn [ymgyngoriad](#), fe wnaethom [ddiwygiadau i'r Cod EPG](#) i sicrhau y gall pobl sydd â namau gweledol ddefnyddio EPG yn yr un modd â phobl nad oes ganddynt y fath anableddau (gweler Atodiad 1). Erbyn hyn mae'n rhaid i ddarparwyr EPG wneud ymdrech resymol, pan fo'n ymarferol, i ddarparu nodweddion penodol (chwyddo testun, cyferbyniad uchel, hidlo/uwcholeuo rhaglenni hygyrch, a swyddogaethau 'testun i leferydd').

Yr adroddiad yn gryno

Dyma ein trydydd adroddiad blynyddol ers y diwygiadau i'r Cod EPG yn 2018. Rydym wedi cydnabod yn flaenorol ei fod yn cymryd amser i weithredu'r newidiadau gofynnol ac y gall cylchoedd datblygu caledwedd gymryd nifer o flynyddoedd. Er bod hyn yn wir o hyd, rydym yn disgwyl yn awr bod darparwyr EPG naill ai wedi gweithredu'r nodweddion gofynnol neu fod ganddynt gynlluniau pendant i wneud hynny, pan fo'n ymarferol.

Eleni, yn hytrach nag edrych yn gyffredinol ar y nodweddion a amlygwyd yn y cod EPG, mae ein hadroddiad yn canolbwyntio ar bob darparwr a'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn gwybod bod COVID-19 wedi effeithio ar ddatblygu cynhyrchion, ond rydym yn falch o weld bod rhai darparwyr wedi gwneud cynnydd er gwaethaf hynny, er bod rhai eraill ymhellach ar ei hôl hi. Mae Atodiad 2 yn darparu crynodeb o'r nodweddion sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pob EPG.

Rydym yn ddiolchgar i RNIB am sefydlu grŵp ffocws sydd wedi galluogi ni i ymgysylltu â defnyddwyr y nodweddion hyn a deall yn well sut y maent yn gweithio'n ymarferol ar gyfer defnyddwyr ar draws ystod o ddyfeisiau a ddefnyddir i gyrchu'r EPG (e.e. setiau teledu cysylltiedig neu flychau pen set).

Yn gryno:

- Mae cyferbyniad uchel a chwyddo ar gael ar ryw ffurf ar bob EPG erbyn hyn, ac eithrio chwyddo ar Virgin Media, y mae'r gwaith o'i ddatblygu'n mynd rhagddo.
- Nid yw hidlo ac uwchleuo cynnwys gyda disgrifiad sain (ac arwyddo) ar gael mor eang, a'n dealltwriaeth gan y grŵp ffocws RNIB yw bod hyn yn addasiad cymharol syml a all fod yn werthfawr tu hwnt i ddefnyddwyr â nam ar y golwg sy'n chwilio am raglenni â disgrifiad sain.
- Mae testun i leferydd ('TTS') yn parhau fel y nodwedd fwyaf anodd i'w gweithredu fel nodwedd 'annatod' y ddyfais a ddefnyddir i gyrchu'r EPG. Mae Virgin yn cymryd camau tuag at ddarparu TTS trwy'r dull hwn, ond nid yw manylder cynlluniau Virgin yn glir. Yn y cyfnod adrodd hwn, cwblhaodd Sky ei waith o ddatblygu ei ddatrysiad TTS, ac ers hynny mae wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus ar draws yr holl flychau Sky Q. Mae Digital UK wedi datblygu datrysiad arloesol gan ddefnyddio EPG ar wahân a gyrchir trwy Sianel 555 ar nifer cynyddol o ddyfeisiau Freeview ac sy'n cynnig pob un o'r pedair nodwedd hygyrchedd. Yn gyffredinol mae darparwyr eraill yn defnyddio swyddogaethau systemau gweithredu symudo ar wahân (STV), rhai setiau teledu clyfar (Freesat) neu integreiddio â thaclau cymorth digidol megis Amazon Alexa (BT, YouView). Nid yw'r taclau cymorth digidol hyn yn cynnig swyddogaethau sy'n gyfwerth â TTS ar hyn o bryd a nododd cyfranogwyr ein grŵp ffocws y byddai angen datblygu pellach er mwyn iddynt fod yn gymaradwy.